

1. Deall y Portffolio Cymwysedig

Mae portffolio cymwysedig Lefel 6 yn ddarn mawr o waith a ymgwymerir ganddo chi ar sail unigol. Mae'r prosiect hwn yn fodiwl 40 credyd ar eich rhaglen astudiaeth. Bydd gan eich perfformiad ddylanwad sylweddol ar ddsbarthiad y gradd a gaiff ei ddyfarnu. Nod y portffolio cymwysedig yw eich caniatáu i ddatblygu ac arddangos eich gallu i reoli prosiect sylweddol o'ch dewis eich hun sydd yn perthyn i brif themâu y cwrs a ddewisoch. Caiff yr astudiaeth ei seilio ar ymchwil gadarn a methodoleg datblygu ac yn arddangos manwl gywirdeb academiaidd gan ddefnyddio sgiliau dadansoddol a thechnegol i roi cynnig prosiect addas a phriodol ar waith.

Tasg wedi ei yrru gan ymchwil yw hwn yn sylfaenol. Byddwch yn diffinio cynnig ymchwil y byddwch yn ei brofi drwy weithredu ymarferol eich disgyblaeth academiaidd. H.Y. rydych yn cynnal ymchwil, gan ddefnyddio rhywbeth y byddwch yn ei adeiladu fel aparatws.

Awgrymiadau Defnyddiol:

- Gall y prosiect fod yn brofiad twyllodrus. Gan fod y linell derfyn ar gyfer cyflwyno mor bell i ffwrdd ar y dechrau, mae perygl y byddwch yn gwastraffu amser yng nghyfnod cynnar y broses.
- Dechreuwch ysgrifennu cyn gynted â phosib. Ceir perygl wrth oedi cyn gwneud y dasg.
- Caniatewch cymaint o amser â phosib ar gyfer y camau olaf. Mae gwelliannau olaf, trefnu, profi, dadfygio, prosesu geiriau a gwneud gwaith trylwyr ar y prawf ddarllen i gyd yn cymryd llawer mwy o amser na fydddech chi'n ei ddychmygu. Mae rhywbeth o hyd yn mynd o'i le i dorri ar draws eich amserlen!

2. Y berthynas rhwng y myfyriwr a'r goruchwyliwr

Eich Goruchwyliwr

- Mae eich goruchwyliwr yno i'ch tywys chi, nid i wneud nac ysgrifennu eich Prosiect drosoch chi. Eich cyfrifoldeb chi yw eich Prosiect.
- Bydd eich goruchwyliwr ar gael i gwrdd â chi ar amseroedd priodol, a gytunwyd.
- Mae eich goruchwyliwr yno i'ch tywys ond gall wneud hynny yn unig os ydych mewn cyswllt rheolaidd a mynych.
- Rhowch ddeunydd i'ch goruchwyliwr ar sail reolaidd. Mae'n anheg i ddisgwyl sylwadau manwl ynglŷn â rhan mawr o'ch gwaith yn ddirybudd.
- Bydd eich goruchwyliwr yn cadw cofnod o'ch presenoldeb a'ch cynnydd.
- Mae gan eich goruchwyliwr gyfrifoldeb i ddod â cheisiadau adnoddau prosiect rhesymol i'r person/pwyllgor priodol.

Eich cyfrifoldebau chi, y myfyriwr:

- I ymgysylltu â deunydd y modiwl a mynychu cyfarfodydd gyda eich goruchwyliwr ar sail reolaidd.
- I lynu at amserlen Cynllun y Prosiect a rhoi gwybod i'ch goruchwyliwr am unrhyw broblemau.
- I roi drafft olaf cyflawn mewn da bryd (a gytunwyd rhwng y goruchwyliwr a'r myfyriwr) ar gyfer darllen a gwneud sylwadau. Er y bydd ef/hithau'n cael gwybod am broblemau yn ymwneud a chyflwyniad, y myfyriwr sydd yn gyfrifol am gywirdeb cyfeiriadau, safon yr iaith, ymddangosiad y cyflwyniad a phrawf ddarllen.
- I gyflwyno unrhyw ddeunydd arall y gofynnir amdano'n benodol gan dîm eich portffolio.
- Adrodd unrhyw broblemau yn ymwneud a goruchwyliaeth i dîm eich portffolio.
- I gynnal llyfr log a sicrhau ei fod yn cael ei ddangos i'ch goruchwyliwr ar adegau rheolaidd.

I ailadrodd, cyfrifoldeb y myfyriwr yw proses y Prosiect a chynhyrchu'r Prosiect. Mae'r goruchwyliwr yno i'ch helpu a'ch tywys ond nid i wneud y gwaith na'i ysgrifennu drosoch chi.

